

# Yr Asiantaeth yn diwygio ei chanllawiau diogelwch ar gyfer oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres yn dilyn ymgynghoriad

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi diweddarau ei chanllawiau ar oes silff cig eidion, cig oen a phorc ffres oer sydd wedi'u pecynnu dan wactod (vacuum packed neu VP) neu drwy addasu'r atmosffer (modified atmosphere packed neu MAP).

O hyn ymlaen, gall gweithredwyr busnesau bwyd ddewis oes silff ddiogel ar gyfer y cynhyrchion penodol hyn yn unol â'u systemau rheoli diogelwch bwyd presennol, yn yr un ffordd ag y maent eisoes yn ei wneud ar gyfer mathau eraill o fwyd. Bydd ymbellhau oddi wrth system 'yr un dull i bawb' o fudd i ddefnyddwyr a'r diwydiant, gan barhau i sicrhau safonau diogelwch bwyd uchel a lleihau gwastraff bwyd diangen.

Gwnaed y penderfyniad yn seiliedig ar gyfuniad o dystiolaeth sy'n cynnwys cyngor microbiolegol arbenigol, gwybodaeth epidemiolegol am bresenoldeb botwliaeth, a data rhyngwladol dros nifer o fflynyddoedd ar gynhyrchion cig. O'u gweithredu'n gywir, ni fydd y canllawiau newydd hyn yn cael unrhyw effaith negyddol ar ddiogelwch bwyd.

Fis diwethaf, daeth [ymgynghoriad cyhoeddus ar ddewisiadau i newid y canllawiau arfer gorau oes silff 10 diwrnod blaenorol ar gyfer y cynhyrchion hyn](#) i ben.

Meddai **Rebecca Sudworth, Cyfarwyddwr Polisi'r ASB:**

“Gallwn gyhoeddi bod ein canllawiau arfer gorau ar ddiogelwch ac oes silff cig eidion, cig oen a phorc oer VP/MAP yn newid.

“Mae gan y Deyrnas Unedig (DU) fframwaith cyfreithiol cadarn ac mae'r diwydiant bwyd yn gyfrifol am sicrhau bod bwyd sy'n cael ei roi ar y farchnad yn ddiogel. Bydd busnesau bwyd yn gallu dilyn canllawiau presennol y diwydiant i sicrhau bod oes silff briodol yn cael ei rhoi i'r cynhyrchion hyn, tra bydd cefnogaeth yn cael ei darparu i fusnesau llai na fydd efallai â'r gallu hwn trwy osod terfyn wedi'i addasu o 13 diwrnod.

“Rydym ni'n hyderus y bydd busnesau bwyd ledled y DU yn parhau i roi safonau a diogelwch wrth wraidd popeth maen nhw'n ei wneud, fel y gall defnyddwyr fod yn hyderus bod eu buddiannau nhw dod yn gyntaf.”

Mae cynrychiolwyr y diwydiant ar Weithgor ar y Cyd rhwng yr ASB a'r Diwydiant, sydd wedi trafod y canllawiau dros y chwe mis diwethaf fel rhan o'r broses adolygu, yn croesawu penderfyniad yr ASB.

## Meddai **David Lindars, cyd-gadeirydd y gweithgor a Chyfarwyddwr Gweithrediadau Technegol Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain:**

“Rwy'n croesawu'r penderfyniad hwn, sy'n cynrychioli rheoleiddio modern yn seiliedig ar dystiolaeth, ac a gyrhaeddwyd drwy waith cydgysylltiedig rhagorol rhwng y diwydiant a'r rheoleiddiwr.

“Rydym ni'n hyderus bod hwn yn ganlyniad cymesur a fydd o fudd i ddefnyddwyr a busnesau bwyd ac yn helpu i leihau gwastraff bwyd, heb gyfaddawdu ar ddiogelwch bwyd.”

Daethpwyd i'r penderfyniad hwn mewn cydweithrediad â Safonau Bwyd yr Alban. Bydd y ddogfen ganllaw newydd ar gael i gyfeirio ati ar wefan yr ASB o ddydd Llun, 14 Rhagfyr 2020.

Ni chanfu adolygiad yr ASB o'r canllawiau arfer gorau, sy'n ceisio lleihau'r risg o fotwliaeth a gludir gan fwyd, unrhyw dystiolaeth o achosion sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchion hyn yn fyd-eang, ac roedd yn cynnwys [adroddiad gan is-gr?p y Pwyllgor Cyngori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd \(ACMSF\)](#).

Er bod disgwyl i fusnesau mwy allu rhoi eu canllawiau eu hunain ar waith ar unwaith ar gyfer y cynhyrchion hyn, mae'r ASB yn cydnabod efallai na fydd gan fusnesau bwyd bach a chanolig yr adnoddau na'r arbenigedd addas.

Felly, byddant yn gallu defnyddio argymhelliad newydd yr ACMSF ar gyfer eu cig eidion, cig oen a phorc oer ffres sydd wedi bod yn destun VP/MAP, pe byddent yn dymuno gwneud hynny. Mae hyn yn golygu y gallant roi oes silff hyd atuchafswm o 13 diwrnod ar gyfer y cynhyrchion hyn heb unrhyw weithgarwch pellach i ddangos y diogelwch mewn perthynas â *C. botulinum*.

Mae'r adolygiad hwn yn berthnasol i gig oen, cig eidion a phorc oer ffres VP/MAP sydd heb gynhwysion ychwanegol ac sydd heb fod yn destun prosesu pellach y tu hwnt i dorri, pecynnu, oeri, rhewi a rhewi cyflym yn unig. Nid yw'n berthnasol i unrhyw gig eidion, cig oen neu borc sy'n destun prosesu pellach fel briwio (mincing), coginio neu gymysgu ag unrhyw gynhwysion eraill fel perlaysiau, sbeisys neu halen halltu.

Mae adrannau perthnasol [canllawiau arfer gorau'r ASB](#) yn parhau i fod yn berthnasol i'r rhain a phob bwyd oer arall sydd wedi bod yn destun VP/MAP.